**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** 15 Medi 1999

**Lleolid:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Pwyllgor Pwnc Addysg a Hyfforddiant ar ol 16 OED – ETR-02-99(p3). Cynllun Gweithredu ar Addysg a hyfforddiant I Gymru

## Cyflwyniad

1. Mae’r papur hwn yn crynhoi prif argymhellion Cynllun Gweithredu’r Gweithgor Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Cymru; yn rhestru’r prif faterion a godwyd yn ystod ymgynghori cyhoeddus, yn awgrymu pa gyrff a mudiadau y dylai’r Pwyllgor drefnu sesiynau briffio hwy, ac yn rhoi cyngor.

## Y Prif Argymhellion ar gyfer Newid

**2. Dyma oedd prif argymhellion y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant:**

- y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol i Gymru (CAHC) a fydd yn atebol i’r Cynulliad ac a fydd, ynghyd Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, phwerau i gyllido pob rhaglen addysg a hyfforddiant ar l 16 oed;

- y dylid trosglwyddo’r holl arian cyhoeddus a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y cyfundrefnau addysg a hyfforddiant ar l 16, ar wahn i addysg uwch, yn dilyn ymgynghoriad priodol, i reolaeth CAHC ac i’w ddyrannu i awdurdodau a darparwyr, yn unol pholisïau a blaenoriaethau’r Cynulliad;

- y dylai CAHC a CCAUC weithredu polisïau a blaenoriaethau strategol y Cynulliad ar gyfer cyflwyno addysg a hyfforddiant ar l 16 yng Nghymru;

- y dylai’r Cynulliad roi’r cyfrifoldeb i’r Cynghorau am sicrhau bod yr addysg a gynllunir ac a ddarperir ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yn diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion am sgiliau, gan dynnu ar brosiectau Future Skills Wales a gomisiynwyd gan CAHC, cyngor gan grwpiau o gyflogwyr neu arolygon eraill cysylltiedig chyflogwyr;

- bod CAHC a CCAUC yn arwain y ffordd ar hybu dysgu gydol oes ar lefel genedlaethol;

- bod cynlluniau cyflwyno a lunnir gan Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (y Consortia) yn bwydo penderfyniadau CAHC wrth gyllido darparwyr addysg a hyfforddiant ar l 16; a

- bod gan CAHC Ysgrifenyddiaeth ar y cyd Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

3. **<u>I grynhoi</u>** mae cynigion y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant ar gyfer sefydlu trefniadau newydd a threfniadau gwell ar gyfer dysgu ar l 16 wedi'u hanelu at godi safonau, cyrraedd targedau dysgu a gwneud Cymru'n wlad sy'n dysgu. Maent wedi'u llunio i ddileu'r anghytgord a'r gwrthdaro yn y systemau presennol ac i :

    - gynyddu'r nifer o bobl sy'n ymroi i ddysgu drwy roi gwell gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unigolion;

    - hyrwyddo rhagoriaeth a lefelau cyrhaeddiad uwch;

    - darparu cyfleodd dysgu sy'n bodloni anghenion unigolion, cymunedau, busnesau a'r economi;

    - rhoi cyfle i gyflogwyr gael dylanwad ehangach ar faes dysgu ar l 16; a

    - dileu dyblygu a gorgyffwrdd, gwella cost-effeithiolrwydd a sicrhau mwy o atebolrwydd o ran gwario arian cyhoeddus.

**<u>4. Mae argymhellion y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant yn cynnwys:</u>**

- Integreiddio'r systemau addysg a hyfforddiant ar l 16 presennol drwy Gyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol newydd i Gymru a gaiff ei sefydlu fel corff statudol, yn amodol ar ganllawiau clir a chyfarwyddyd gan y Cynulliad. Byddai gan y Cyngor gyfrifoldeb am gynllunio, comisiynu a chyllido pob math ar addysg ar l 16, ac eithrio addysg uwch;

- rhoi cyfrifoldeb i'r Cyngor newydd – mewn partneriaeth ag AALl – am gynllunio a chyllido addysg chweched dosbarth mewn ysgolion gan ddiogelu'r dosbarthiadau hynny sy'n effeithiol, tra'n datrys problemau'r rheini nad ydynt yn gost-effeithiol ac sydd wedi derbyn adroddiadau arolygu gwael. Y nod fyddai cydweithio darparwyr eraill yr ardal er mwyn creu awyrgylch a fyddai'n galluogi disgyblion chweched dosbarth llwyddiannus i barhau i ddatblygu ac a fyddai'n galluogi'r rhai gwanach i godi eu cyrhaeddiadau neu eu safonau;

- galluogi'r Cyngor i gynllunio, comisiynu a chyllido addysg a hyfforddiant yn uniongyrchol drwy Gonsortia Cymunedol lleol dros Addysg a Hyfforddiant, ond gyda chyfle i gynnwys cymorth rhanbarthol. Byddai gan y Cyngor hawl i roi arweiniad i'r Cynulliad yngln sefydlu,

cynghori, datblygu a chefnogi Consortia Cymunedol, yn unol ag asesiadau sgiliau lleol ac anghenion unigolion a chyflogwyr. Byddai Consortia Cymunedol yn sicrhau bod addysg yn cael ei ddarparu: byddent yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau Addysg Bellach; hyfforddiant gan awdurdodau lleol ac addysg barhaus i oedolion; dosbarthiadau chwech ysgolion awdurdodau lleol; rhai sy'n darparu hyfforddiant preifat a chyflogwyr sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant; cyrff yn y sector gwirfoddol a (lle bo'n berthnasol) sefydliadau Addysg Uwch ac aelodau cysylltiol;

- datblygu strategaeth Sgiliau Sylfaenol i godi safonau llythrennedd a rhifedd, gan hyrwyddo dulliau o sicrhau mwy o gynhwysiant cymdeithasol a sefydlu fframwaith cymwysterau'n seiliedig ar gredydau cenedlaethol;

- cyflwyno Targedau Dysgu Cenedlaethol wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru a sefydlu fframwaith asesu ansawdd cenedlaethol, gan ddisgwyl i bob darparwr wella perfformiad bob blwyddyn;

- gofyn i'r Cyngor cenedlaethol newydd gyflawni llawer o'r gwaith trosiannol sydd ei angen; a

- sefydlu gwasanaeth cymorth cenedlaethol newydd ar gyfer pob oed sy'n rhoi gwell gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i unigolion i'w galluogi i wneud y dewisiadau cywir a'u helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

## Y Prif Ystyriaethau, Pryderon a Materion

5. Ar l cyhoeddi Cynllun Gweithredu Drafft y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant yn Hydref 1997, y prif bryderon oedd:

- **Addysg vs Hyfforddiant**. Tra'r oedd consensws cadarn o blaid diwygio, yr oedd rhai addysgwyr, yn enwedig o blith y sector ysgolion, yn teimlo y byddai'r argymhellion yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu a rheoli dysgu ar l 16 i ddwylo busnesau, diwydiant a chyflogwyr. Yr oedd rhai o fyd gwaith yn dadlau i'r gwrthwyneb. Daeth y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant i'r canlyniad bod addysg a hyfforddiant lawn cyn bwysiced â'i gilydd o ran datblygu cymuned iach; cynhwysiant cymdeithasol a chyfoeth, ynghyd sicrhau bodlonrwydd, datblygiad a mwynhad personol. Credent fod pob un o'r agweddau hyn o bwysigrwydd allweddol a chyfartal, ac roeddent am gael gwared ar yr ymraniad artiffisial rhwng addysg a hyfforddiant. Gwnaethant argymhelliad bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r agwedd hon.

- **Amserlen.** Ychydig a feddyliodd y byddai'r amserlen a gynigiwyd yn wreiddiol ar lefel ymarferol. Cymerodd y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant sylw o'r farn hon a chynnig bod yr adroddiad terfynol yn cael ei drefnu fesul cam:

  **Y cam cyntaf 1999-00:** ymestyn partneriaethau lleol ar sail y pwerau a sicrhawyd i Gymru dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**Yr ail gam 2000-01:** sefydlu cysgod-CAHC tua mis Ebrill. Byddai'r systemau a strwythurau presennol yn parhau – byddai'r cysgod-gorff yn gyfrifol am osod sylfeini llwyddiannus i waith y Cyngor newydd yn y dyfodol ac yn cynghori'r Cynulliad ar gwestiynau manwl yngln gweithredu erbyn Rhagfyr 2000.

**Y trydydd cam 2001-02:** yn amodol ar farn y Cynulliad am gyngor y cysgod-CAHC, dylai'r Cyngor newydd ddod yn llawn-weithredol o Ebrill 2001 a dylid sicrhau'r holl newidiadau sefydliadol angenrheidiol erbyn 31 Mawrth 2002.

**Y pedwerydd cam:** o Ebrill 2002 byddai CAHC yn gyfrifol am gyllido pob sector o addysg a hyfforddiant ar l 16 yn unol â'r egwyddorion a methodolegau a gymeradwyir gan y Cynulliad.

- **Cyflogwyr.** Yr oedd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, o'r farn bendant y dylai unrhyw system newydd roi dylanwad go iawn i gyflogwyr ac y dylai hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant yn y gweithle, gael ei drefnu yn l y galw neu o dan arweiniad y cyflogwr. Cytunodd y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant ei bod yn hanfodol i fusnesau a chyflogwyr chwarae rhan amlwg yn y strwythurau newydd wrth iddynt ymddangos, yn enwedig er mwyn sicrhau trefniadau deinamig ac ymatebol i fodloni'r angen am wella medrau a lefel sgiliau yn y gweithle, ac yn enwedig ar gyfer busnesau bychain a chanolig eu maint.

- Y ffordd i gyflawni hyn fyddai sefydlu'r Cyngor cenedlaethol gyda byrdddau rhanbarthol a chanddynt ffocws pendant wedi'u seilio ar bedwar Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad sy'n cydffinio 'r fforymau economaidd rhanbarthol yng Nghymru. Byddai busnesau'n cael cynrychioliaeth dda ar bob lefel a byddai ganddynt y llais cryfaf posibl mewn penderfyniadau yngln chomisiynu hyfforddiant yn y gweithle ar lefel ranbarthol. Byddai gan Gadeiryddion cyrff rhanbarthol le ar Fwrdd y Cyngor cenedlaethol ei hun – gyda phob penodiad yn amodol ar drefniadau penodi tryloyw y Cynulliad sydd wedi'u seilio ar argymhellion Nolan. Ar y cyfan, byddai hyn yn caniatáu cyfeiriad strategol unedig ar gyfer addysg a hyfforddiant (a dylanwad amlwg i fusnes ar draws y sbectrwm), tra ar yr un pryd yn nodi anghenion unigryw, yn rhanbarthol a lleol. Byddai hefyd yn sicrhau bod y swyddogaethau a'r arbenigedd o fewn y Cynghorau Hyfforddi a Menter presennol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gymhedrol a phositif.

- Ymhlith pethau eraill, byddai'r byrddau rhanbarthol yn gyfrifol am ddyrannu'r gyllideb ranbarthol ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle yng ngoleuni eu hasesiadau eu hunain o anghenion lleol ac yn unol 'r canllawiau strategol a osodwyd gan y Cyngor cenedlaethol. Yn ogystal 'r rl gomisiynu hon, byddai byrddau rhanbarthol hefyd, er enghraifft, yn gyfrifol am gynorthwyo'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant gyda'i swyddogaeth ragweithiol ac arloesol a'i rl gynllunio.

- Byddai hyn yn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei sefydlu yn adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diweddar; yn cynnal momentwm i wella addysg a safonau hyfforddiant; yn osgoi unrhyw beth a all effeithio ar y ddarpariaeth addysg bresennol; yn sicrhau ein bod

mewn sefyllfa dda i fanteisio'n llawn ar gyllid Ewropeaidd; ac yn sicrhau bod penderfyniadau am gynllunio a chyllido yn cymryd i ystyriaeth sgiliau ac anghenion dysgu marchnadoedd gwaith lleol.

- **<u>Dosbarthiadau Chwech Ysgolion ac Addysg Cyfrwng Gymraeg.</u>** Ofnai'r mwyafrif o brifathrawon a ymatebodd, ynghyd rhai eraill, bod y cynigion yn fygythiad i ddosbarthiadau chwech. Pwysleisiodd y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant y dylai dosbarthiadau chwech llwyddiannus barhau i ffynnu; bod cyfleoedd newydd yn y newidiadau arfaethedig i'r rheini sy'n cael anawsterau; a bod manteision partneriaethau eisoes yn amlwg mewn sawl achos. Yn wir, gallai'r dewis ehangach o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a ragwelwyd yn y cyd-destun newydd anadlu bywyd newydd i'r dosbarthiadau chwech hynny a allai fod mewn perygl oherwydd y dewis cyfyng o bynciau y maent yn gallu eu cynnig. Byddai disgwyl i'r Cyngor cenedlaethol a'r Consortia Cymunedol ymdopi 'r sensitifrwydd hwn mewn ffordd a fyddai'n galluogi i bob partner gael dylanwad.

- Cododd nifer dda o ysgolion gyda chweched dosbarth gwestiynau yngln 'r lefel o adnoddau a fyddai ar gael ar eu cyfer o dan unrhyw system newydd, gan gredu y byddai eu cyllid yn cael ei gwtogi i gyfateb chyfraddau CCAUC a Chynghorau Hyfforddi a Menter. Cydnabu'r Gweithgor Addysg a Hyfforddiant fod llawer o waith i'w wneud i weld a fyddai egwyddorion cyllido cyffredin yn cael eu rhoi ar waith. Roeddent yn argymhell y dylai'r cysgod-Gyngor newydd, ynghyd â phawb sydd â diddordeb, barhau 'r astudiaethau technegol angenrheidiol a gwaith staff, gan ymgynghori'n agos Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CCABC a Chyngor Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru. Byddai gan y cysgod-Gyngor rl benodol i wneud argymhellion i'r Cynulliad yn ystod yr ail gam 2000-01.

  O ran addysg cyfrwng Cymraeg, sylweddolai'r Gweithgor Addysg a Hyfforddiant y dylid, drwy ymdrin 'r chweched dosbarth a gweithredu egwyddorion cyllido neu fethodolegau, hyrwyddo'r Gymraeg law yn llaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill. Yn hyn o beth, byddai'r cyfan yn ddibynnol ar y cylch gwaith a roddwyd i'r Cyngor cenedlaethol gan y Cynulliad o safbwynt chweched dosbarth ysgolion a darparu addysg bellach.

### Briffio

6. O ystyried y cefndir hwn byddai'n dda pe bai'r Pwyllgorau Pwnc yn trefnu sesiynau briffio gyda'r canlynol:

   - Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
   - Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
   - Cyngor Cynghorau Hyfforddi a Menter Cymru
   - Aelodau'r Gweithgor Addysg a Hyfforddiant
   - Ffederasiwn Busnesau Bach
   - Sefydliad y Cyfarwyddwyr
   - Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol Cymru
   - Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd (SHA)

- Undebau (NATFHE: NUT: NASUT)
- CLlLC
- Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru (WSSA)
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru
- Fforwm (mudiad cenedlaethol sy'n cynrychioli pob coleg addysg bellach arall yng Nghymru)

**Cyngor**

7. Gwahoddir y Pwyllgor Pwnc i:

- **ystyried** argymhellion y Gweithgor Addysg a Hyfforddiant ym mharagraff 2;

- **cynghori** Ysgrifennydd y Cynulliad yngln 'r ffordd orau i'w datblygu erbyn diwedd Gorffennaf;

- **ystyried** y prif ystyriaethau, pryderon a materion sy'n gofyn am archwiliad ac ystyriaeth fanylach mewn cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer yr Hydref;

- **cytuno** y dylid paratoi cynllun gweithredu project i sicrhau bod y Pwyllgor Pwnc yn gallu dylanwadu ar y broses o weithredu gam wrth gam a chynghori ac arwain y broses honno; a

- **chytuno** y dylai'r flaenraglen gynnwys sesiynau briffio gyda'r mudiadau a restrwyd ym mharagraff 6.